This document is also available in English

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL

## CYNNWYS

**ADRAN 22**

**22.1** Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion

**ADRAN 22 - PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION**

## 1. <u>Cyflwyniad</u>

1.1 Diben y Protocol hwn yw arwain Aelodau a Gweithwyr y Cyngor yn eu cysylltiadau â'i gilydd.

1.2 Mae parch rhwng Aelodau a Gweithwyr yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall agosrwydd personol rhwng Aelodau a Gweithwyr unigol niweidio'r berthynas hon a pheri embaras i Aelodau a Gweithwyr eraill.

1.3 Dylai Aelodau a Swyddogion gadw at egwyddorion Nolan sef:

- Anhunanoldeb
- Uniondeb
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Bod yn agored
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

1.4 Rhaid i'r berthynas weithio heb beryglu cyfrifoldebau eithaf Gweithwyr i'r Cyngor cyfan, a chan roi sylw dyledus i'r cyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Gweithwyr ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Nod y Protocol yw gosod fframwaith sy'n cynorthwyo'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Gweithwyr.

1.5 Dylid darllen y protocol hwn ochr yn ochr a phrotocolau eraill megis Codau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion. Mae atodiad y protocol hwn yn cynnwys mwy o wybodaeth am y berthynas rhwng Aelodau/Swyddogion yn gyffredinol, a rolau penodol pob un.

## 2. <u>Rolau Aelodau</u>

2.1 Mae gan Aelodau lawer o rolau gwahanol. Yn gyffredinol:

- Darparu arweinyddiaeth wleidyddol drwy osod cyfeiriad y Cyngor o ran datblygu, monitro ac adolygu strategaethau a pholisïau'r Cyngor.
- Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol a chefnogi polisïau'r blaid neu grŵp maent yn perthyn iddynt (os o gwbl).
- Mae Aelodau'n cynrychioli eu ward etholiadol ac maent yn eiriolwyr dros y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.
- Mae Aelodau'n cymryd rhan mewn partneriaethau â sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.
- Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn y cyrff amrywiol maent yn gwasanaethu ynddynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.
- Mae Aelodau'n helpu i ddatblygu ac adolygu polisïau a strategaethau.

- Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithredu polisïau ac ansawdd gwasanaethau.
- Mae Aelodau'n cymryd rhan mewn gwaith lled-farnwrol drwy eu haelodaeth ar bwyllgorau rheoleiddio.

**3. Rolau Gweithwyr**

3.1 Yn fyr, mae gan Weithwyr y prif rolau a ganlyn:

- Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb iddynt drostynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.
- Rhoi cyngor i'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac i Aelodau unigol am y gwasanaethau a ddarperir.
- Dechrau cynigion polisi.
- Gweithredu polisïau y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon bob amser.

**2. Parch a Chwrteisi**

2.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwrteisi rhwng Aelodau a Gweithwyr ym mhob cyfarfod, boed yn ffurfiol neu anffurfiol. Mae gan hyn ran bwysig iawn yn enw da'r Cyngor a'r ffordd y mae'n cael ei weld yn gyhoeddus. Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Gweithwyr yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor ac i wneud yr hyn y gallant i osgoi beirniadaeth o Aelodau eraill, neu Weithwyr eraill, mewn mannau cyhoeddus.

**5. Pwysau Gormodol**

5.1 Ym mhob cysylltiad rhwng Aelodau a Gweithwyr, mae'n bwysig nad yw'r naill na'r llall yn cymryd mantais annheg o'u sefyllfa.

5.2 Yn eu cysylltiad â Gweithwyr (yn enwedig Gweithwyr iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn hawdd iddynt deimlo parchedig ofn a than anfantais. Gall y teimladau hyn fod yn waeth pan fydd gan Aelodau swydd swyddogol uwch a/neu wleidyddol.

5.3 Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Weithiwr un ai i wneud rhywbeth nad oes ganddo'r grym i'w wneud nac i wneud gwaith y tu hwnt i ddyletswyddau neu oriau arferol. Mae angen cymryd gofal penodol o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.

5.4 Yn yr un modd, ni ddylai Gweithiwr geisio ddefnyddio dylanwad gormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid, na chodi materion personol ynglŷn â'i swydd, na gwneud hawliadau neu honiadau am Weithwyr eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Weithwyr hawl i roi gwybod am gamweddau dan Bolisi Rhannu Pryderon y Cyngor.)*

## 6. Agosrwydd

6.1 Gall agosrwydd personol rhwng Aelodau a Gweithwyr unigol niweidio'r egwyddor o barch rhwng y naill a'r llall. Gall hefyd arwain, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth na ddylid ei throsglwyddo rhyngddynt, megis manylion personol.

6.2 Gallai agosrwydd o'r fath hefyd beri embaras i Aelodau eraill a/neu Weithwyr eraill a gallai hyd yn oed achosi amheuaeth o ffafriaeth.

6.3 Oherwydd y rhesymau hyn, dylid osgoi agosrwydd personol.

## 7. Torri'r Protocol

7.1 Os yw Aelod yn ystyried nad yw wedi cael ei drin â'r parch neu gwrteisi cywir, gall godi'r mater â rheolwr atebol y Gweithiwr. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol â'r rheolwr yn datys y gŵyn, dylid ei chyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr Strategol sy'n gyfrifol am y gweithiwr perthnasol. Gall torri'r Protocol arwain at gymryd gweithdrefnau disgyblu yn erbyn y Gweithiwr os bydd yr amgylchiadau'n gofyn am hynny.

7.2 Os yw Gweithiwr yn ystyried bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ymgynghori â'i reolwr atebol, fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr Strategol os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gall torri'r protocol hefyd olygu torri Cod Ymddygiad Aelodau. Os bydd yr achos yn ddigon difrifol, gall olygu cyfeiriad ffurfiol at y Swyddog Monitro fel cŵyn i gael ei hystyried ar gyfer ymchwiliad posibl gan y Pwyllgor Safonau. Bydd yn bosibl datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn cynorthwyo gyda'r broses hon os oes angen.

## 8. Darparu Cyngor a Gwybodaeth i Aelodau

8.1 Mae croeso i Aelodau fynd at Weithwyr y Cyngor i ofyn iddynt am wybodaeth a chyngor y gallent fod ei hangen yn rhesymol i'w helpu i wneud eu swydd fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol am unrhyw agwedd o weithgareddau'r Cyngor, i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.

8.2 Dylai Gweithwyr ymdrechu bob amser i ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth a rhoi gwybod i'r Aelod os yw'n debygol y bydd oedi wrth ddelio ag ymholiad. Fel isafswm, dylid cadw at yr amserlen ar gyfer ymateb, sef un ai ymateb llawn, neu os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n egluro'n llawn beth sy'n digwydd cyn pen 10 diwrnod o dderbyn yr ymholiad.

8.3 Mae hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn rhannol mewn statud ac yn rhannol mewn cyfraith gyffredin.

8.4 Mae Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth y Cyfansoddiad hwn yn egluro'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau'n ymwneud â busnes corff Aelodau.

8.5 Dylai'r wybodaeth y mae Aelod yn chwilio amdani gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond os yw o fewn cyfyngiadau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan nhw, dylai Aelodau fod yn rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau y maent yn eu gwneud. Dylai Aelodau ddeall y gall ceisiadau afresymol ychwanegu at bwysau mewn gwasanaethau.

8.6 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybod i Aelodau am y materion mawr sy'n ymwneud â'r Cyngor ac yn fwy penodol, am y materion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardal maent yn eu cynrychioli. Dylai Aelodau Lleol gael gwybod am gynigion sy'n effeithio ar eu ward etholiadol a dylid hefyd eu gwahodd i fynychu digwyddiadau gan y Cyngor yn eu ward etholiadol. (Mae mwy o wybodaeth yn y Protocol ar gyfer Cysylltu ag Aelodau Lleol).

8.7 Os bydd Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol am waith Gwasanaeth penodol, a'i bod yn bosibl neu'n debygol y gellid codi mater neu ofyn cwestiwn mewn cyfarfod dilynol yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod Cabinet priodol neu Gadeirydd y Pwyllgor perthnasol am y wybodaeth a roddwyd.

8.8 O bryd i'w gilydd, mae Swyddogion yn gorfod rhoi gwybod i Aelodau na ellir cynnal rhai camau gweithredu. Weithiau, mae Aelodau'n cymryd bod Swyddogion yn rhwystro dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, nid dyma'r achos byth bron. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol diduedd, hyd yn oed os nad yw'r hyn y mae'r Aelodau eisiau ei glywed. Maent yn gwneud hyn er mwyn amddiffyn Aelodau cymaint ag unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, arwydd o Swyddog effeithiol yw, os byddant yn gorfod rhoi cyngor negyddol, eu bod hefyd yn rhoi awgrymiadau ar sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion, neu eu hamcanion i gyd mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.

8.9 Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl i gael gwybodaeth sydd y tu hwnt i'w hawliau cyfraith gyffredin yn seiliedig ar "yr angen i wybod". Anogir Gweithwyr i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cais Rhyddid Gwybodaeth ffurfiol os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn hawl i gael dogfennaeth o'r fath. Bydd Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor yn gallu cynghori a yw cais yn syrthio o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro os oes angen.

## 9. Cyfrinachedd

9.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad i Aelodau, rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/hi yn gyfrinachol gan neb, neu wybodaeth y mae'n credu, neu ddylai fod yn ymwybodol yn rhesymol, ei fod o natur gyfrinachol, ac eithrio:

a) os yw ef/hi wedi cael cydsyniad unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i'w roi;
b) ei bod yn ofynnol gan y gyfraith iddo ef/hi ei ddatgelu;
c) os yw'r wybodaeth yn cael ei datgelu i drydydd parti er mwyn cael cyngor proffesiynol, gan gymryd bod y trydydd parti yn cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw un arall; neu
d) mae'r datgeliad yn:
   i. rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac
   ii. mae'n cael ei wneud mewn ewyllys da ac yn cydymffurfio â gofynion rhesymol yr awdurdod.

9.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau melyn) fel gwybodaeth gyfrinachol os nad yw'r Pwyllgor perthnasol yn penderfynu peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau bod awdur yr adroddiad yn gwneud yr asesiad cychwynnol a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Penderfyniad y Pwyllgor yw a ddylent barhau'n gyfrinachol ai peidio. Gallai gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol gan na fyddai ei datgelu er budd y Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd y modd y daeth i'ch meddiant.

9.3 Fel arfer, bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol.

9.4 Dylai Swyddogion egluro'n glir i Aelodau os byddant yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os nad yw Aelod yn siŵr a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond gan drin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

9.5 Dylai unrhyw wybodaeth y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod mewn cysylltiad â pherfformio ei ddyletswyddau'n gywir fel Aelod o'r Cyngor yn unig.

9.6 Os bydd Aelod yn cael gwybodaeth gyfrinachol ac yn ystyried y dylid ei datgelu i rywun arall oherwydd ei bod yn rhesymol ac er budd y cyhoedd i wneud hynny, mae'n rhaid iddo ef/hi ymgynghori i ddechrau â'r Swyddog Monitro ac ni ddylai ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried y cyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

## 10. <u>Darparu Gwasanaethau Cefnogi i Aelodau</u>

10.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cefnogi yn gyfreithiol i Aelodau (e.e. gliniadur, llechen, ffôn symudol, offer swyddfa, prosesu geiriau, argraffu, llungopïo, cludiant ac ati) yw er mwyn eu helpu i wneud eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. O'r herwydd, dylai gwasanaethau cefnogi o'r fath gael eu defnyddio ar fusnes y Cyngor yn unig. Ni ddylent fyth gael eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgaredd gwleidyddol plaid neu ymgyrchu nac at ddibenion preifat.

10.2 <u>Gohebiaeth</u>

Fel arfer, dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Gweithiwr priodol, yn hytrach nag enw Aelod. Weithiau, efallai y byddai'n briodol anfon llythyr 'ar y cyd' gan Uwch Swyddog ac Aelod Etholedig. Mae amgylchiadau ble mae'n hollol briodol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, wrth ymateb i lythyr ymholiad neu gŵyn a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod, os nad oes gan yr Aelod uwch swydd ac awdurdod dirprwyedig i wneud hynny.

10.3 <u>Y Cyfryngau</u>

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n darparu sylwadau a safbwyntiau tra bod Gweithwyr yn darparu gwybodaeth ffeithiol. Os nad yw Aelod yn siŵr am amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr Strategol neu Bennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

## 11. <u>Rôl y Cyngor fel Cyflogwr</u>

11.1 Wrth ddelio â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod ac ystyried rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

## 12. <u>Gweithgaredd Gwleidyddol</u>

12.1 Ni chaiff y gweithwyr hynny sydd mewn swyddi a ddynodwyd â "chyfyngiadau gwleidyddol" ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol. Mae hyn yn berthnasol bob amser yn ystod oriau gwaith a thu allan iddynt ac nid yn y cyfnod cyn etholiad yn unig. Y prif weithgareddau sydd wedi'u gwahardd i'r swyddogion hyn yw:-

- bod yn ymgeisydd mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin, Senedd Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu Awdurdod Lleol;
- gweithredu fel asiant i ymgeisydd mewn etholiad i un o'r cyrff uchod;
- bod yn swyddog plaid wleidyddol neu weithredu ar ran ymgeisydd mewn etholiad i un o'r cyrff uchod;
- canfasio ar ran plaid wleidyddol neu ar ran ymgeisydd;
- siarad â'r cyhoedd neu adran o'r cyhoedd gyda'r bwriad amlwg o effeithio ar gefnogaeth i ymgeisydd neu blaid wleidyddol;
- cyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig gyda'r bwriad o effeithio ar gefnogaeth gyhoeddus i ymgeisydd neu blaid wleidyddol; ac
- ymgysylltu mewn dadl wleidyddol ag ymgeiswyr neu bleidiau ar y cyfryngau cymdeithasol. O ran hyn, dylai staff sydd â gwaharddiadau o'r fath hefyd osgoi "hoffi", "dilyn" neu anfon cais ffrind at ymgeiswyr neu bleidiau gwleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol.

12.2 Mae'n bosibl y gelwir ar y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol neu Benaethiaid Gwasanaeth i gynghori Arweinwyr Grwpiau, ond ni fydd disgwyl iddynt fynychu cyfarfodydd grwpiau. Ni ddylai cefnogaeth dan yr

amgylchiadau hyn fynd y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth a chyngor o ran materion busnes y Cyngor. Rhaid i weithwyr beidio â chymryd rhan mewn cynghori ar faterion busnes pleidiau.

12.3 Dylid codi unrhyw achosion penodol o anhawster neu ansicrwydd o ran y cyngor i grwpiau pleidiau gyda'r Prif Weithredwr, fydd yn eu trafod gyda'r Arweinwyr Grwpiau perthnasol.

12.4 Cyflogir Gweithwyr gan y Cyngor cyfan. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr Strategol/Penaethiaid Gwasanaeth priodol ac nid i Aelodau unigol y Cyngor pa bynnag swydd sydd ganddynt.

12.5 Mae Aelodau a Gweithwyr yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain, sydd ar gael yn y Cyfansoddiad. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar berthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Gweithwyr. Mae'n hanfodol eu bod yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad eu hunain, fydd yn drech na dim os bydd gwrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

## 13. <u>Sancsiynau</u>

2.1 Gellir cyfeirio cwynion am Aelod sydd wedi torri'r Protocol hwn at y Swyddog Monitro. Dylid nodi hefyd y gallai rhai achosion o dorri'r Protocol hefyd olygu bod Cod Ymddygiad Aelodau wedi'i dorri.

2.2 Gellir cyfeirio unrhyw gwynion am Swyddog sydd wedi torri'r protocol hwn at y Prif Swyddog perthnasol, y Prif Weithredwr neu Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu

## 14. <u>Casgliad</u>

14.1 Y gobaith yw y gallwn, drwy ddilyn arfer da a sicrhau perthnasoedd gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng Aelodau a Gweithwyr, ddarparu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus, ac felly wella darpariaeth gwasanaethau o ansawdd a gwerth uchel i bobl yr ardal. Dealltwriaeth, didwylledd a pharch ar y cyd yw'r ffordd orau o ddiogelu uniondeb y Cyngor, ei Aelodau a'i Weithwyr.

**ADRAN 22 – ATODIAD: CYSYLLTIADAU AELODAU/SWYDDOGION**

1.1 Rhaid darllen yr atodiad hwn ar y cyd â'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion. Mae'n rhoi mwy o wybodaeth am y berthynas, yn gyffredinol, a'r rolau penodol sydd gan bob un, yn benodol.

1.2 Wrth wraidd y Codau Ymddygiad i Aelodau a Swyddogion a'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion, mae pwysigrwydd parch y naill i'r llall. Rhaid cynnal perthnasoedd rhwng Aelodau/Swyddogion mewn ffordd bositif, adeiladol. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw gysylltiad rhwng Aelodau a Swyddogion yn cadw at safonau cwrteisi ac na ddylai unrhyw ochr gymryd mantais annheg o'u sefyllfa na cheisio rhoi pwysau gormodol ar yr ochr arall.

1.3 Nod pob Aelod a Swyddog yw rhoi pobl Conwy wrth wraidd yr hyn a wnânt. Maent yn angenrheidiol i'r naill a'r llall. Fodd bynnag, mae eu cyfrifoldebau yn wahanol. Mae Aelodau'n atebol i'r cyhoedd, ond mae Swyddogion yn atebol i'r Cyngor cyfan.

| **Canllaw Cyflym i rai o'r rolau gwahanol** | |
|---|---|
| **Aelodau** ⟵ | ⟶ **Swyddogion** |
| Yn atebol i'r etholaeth | Yn atebol i'r Cyngor |
| Arweinydd Cymunedol i ward | Gwasanaethu'r Cyngor cyfan |
| Ychwanegu dimensiwn gwleidyddol | Diduedd yn wleidyddol |
| Gosod polisi/strategaeth ar lefel uchel | Sicrhau bod darpariaeth weithredol yn effeithiol |
| Cymryd rhan mewn penodi Prif Weithredwr / Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth | Rheoli adnoddau staff o ddydd i ddydd |
| Gosod fframwaith polisi a strategaeth y Cyngor ar y cyd | |

1.4 Fodd bynnag, ni ellir rhannu rolau Aelodau a Swyddogion i feysydd sy'n gwbl ar wahân. Er mwyn rhedeg y Cyngor yn effeithiol, mae angen partneriaeth a chydweithio effeithiol rhwng Aelodau a Swyddogion. Yn dilyn y disgrifiad uchod, mae'r diagram isod yn amlinellu'r gwahaniaethau a'r gorgyffwrdd:




1.5 Mae tabl defnyddiol i'w ystyried, o ran disgwyliadau, fel a ganlyn:

| **Yr hyn y gall pob Aelod ei ddisgwyl gan Swyddogion** | **Yr hyn y gall pob Swyddog ei ddisgwyl gan Aelodau** |
|---|---|
| Ymrwymiad i'r awdurdod cyfan, nid i grŵp gwleidyddol unigol | Arweinyddiaeth a chyfeiriad gwleidyddol |
| Partneriaeth waith | Partneriaeth waith |
| Ymateb prydlon i ymholiadau a chwynion | Cydymffurfio â safonau moesegol a gofynion uniondeb |
| Cyngor proffesiynol nad yw'n cael ei ddylanwadu gan farn neu ogwydd gwleidyddol | Dim rhan mewn rheoli o ddydd i ddydd |
| Parch, uniondeb, cefnogaeth ar y cyd a chyfrinachedd priodol | Parch, urddas ac uniondeb, ond dim ystyriaeth arbennig |


1.6 Mae gan Aelodau a Swyddogion rôl bwysig yn natblygiad polisi/strategaeth, y gellir ei grynhoi mewn pedwar prif faes:

a) Datblygu'r polisi/strategaeth

b) Darparu’r polisi/strategaeth

c) Monitro’r polisi/strategaeth

d) Adolygu’r polisi/strategaeth, gan gysylltu â’i ddiwygio (ac yn ôl i ddechrau’r cylch)




1.7 Yn y model hwn, mae 3 o’r 4 gweithgaredd yn cael eu harwain gan **Aelodau Etholedig**:
a) Datblygu;
c) Monitro

d) Adolygu

Nodir un o’r pedwar maes fel gweithgaredd dan arweiniad **Swyddogion**

b) Darparu

1.8 Derbynnir bod Swyddogion yn cefnogi Aelodau drwy ddarparu gwybodaeth, data a chyngor o ran y 3 proses o **ddatblygu; monitro ac adolygu**, a bod Swyddogion yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am unrhyw faterion allweddol o ran **darparu’r** strategaeth a pholisi.

1.9 Y Cabinet sy’n arwain ar lawer o feysydd o ran datblygu, monitro ac adolygu strategaeth/polisi, ond mae gan Aelodau eraill o bob plaid rôl sylweddol i’w chwarae.

1.10 Mae gan Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rôl allweddol mewn datblygu ac adolygu polisi.  Felly hefyd, mae rôl glir i Aelodau wardiau gysylltu â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o strategaeth a pholisi, ac i adrodd yn ôl o lawr gwlad ar gynigion ar gyfer eu datblygu a'u hadolygu.